# Caniatâd Draenio Tir
# Nodiadau canllaw ar gyfer ymgeiswyr

**Darllenwch y nodiadau canllaw hyn yn ofalus cyn i chi gwblhau'r ffurflen gais Caniatâd Draenio Tir.**

Diben y ddogfen hon yw darparu canllawiau cyffredinol ar y gweithdrefnau cyffredinol i'w dilyn wrth wneud cais am waith ar gyrsiau dŵr cyffredin o fewn unrhyw Ardal Draenio Mewnol yng Nghymru o dan ddarpariaethau Deddf Draenio Tir 1991.

Mae materion y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu hystyried wrth bwyso a mesur cais hefyd yn cael eu hamlinellu.

Pan welwch yr ymadrodd 'cyfeirnod y ddogfen', rhowch y cyfeirnod(au) perthnasol ar gyfer y ddogfen ac anfonwch y rhain gyda'ch ffurflen gais wedi'i chwblhau. Sylwer, os byddwch yn darparu dogfennau nad ydynt yn ofynnol, ni fydd y rhain yn cael eu hasesu.
Rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â ni am gyngor ar eich cynnig cyn cwblhau'r ffurflen.

Mae gennym ddau fis i wneud penderfyniad am eich cais.

**Cynnwys**


1. Gofynion cyfreithiol
2. Prif afonydd
3. Cyrsiau dŵr cyffredin
4. Ffioedd gwneud cais a thaliadau eraill
5. Sut i gael caniatâd
6. Gofynion cyffredinol
7. Gofynion yn Ardaloedd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy, Cil-y-coed a Gwynllŵg, a Phowysland
8. Safonau diogelu – yn berthnasol i Ardaloedd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy, Cil-y-coed a Gwynllŵg, a Phowysland
9. Effeithiau ar yr amgylchedd
10. Hawl i apelio
11. Methu â sicrhau caniatâd draenio tir
12. Caniatadau a chydsyniadau eraill
13. Ble i anfon eich cais
14. Sut i gysylltu â ni


## 1. Gofynion cyfreithiol

1.1. O dan ddarpariaethau Deddf Draenio Tir 1991, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd i weithredu goruchwyliaeth gyffredinol dros yr holl faterion yn ymwneud â draenio tir o fewn ei ardal ddraenio. Yn ychwanegol at hyn, mae is-ddeddfau a wnaed o dan Adran 66 y Ddeddf yn rheoli gwaith a gweithgareddau pellach a wnaed gan eraill sy'n effeithio ar gyrsiau dŵr o fewn ardaloedd draenio Rhannau Isaf Afon Gwy, Cil-y-coed a Gwynllŵg (Ardal Draenio Mewnol Gwent), a Phowysland. Mae'r is-ddeddfau yn

caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru reoli cyfradd y dŵr ffo o safleoedd datblygu i mewn i'r ardaloedd draenio hyn.

1.2. I fodloni gofynion y Ddeddf a'r is-ddeddfau, mae'n rhaid i unrhyw unigolyn sy'n cynnig gwneud unrhyw waith sy'n effeithio ar gwrs dŵr o fewn yr Ardaloedd Draenio Mewnol a weinyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno manylion eu cynigion i Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyn rhoi caniatâd i'r gwaith fynd rhagddo, gall Cyfoeth Naturiol Cymru ofyn am unrhyw addasiadau i'r cynigion y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn bodloni ei ddyletswyddau amgylcheddol a rheoli perygl llifogydd. Gallai fod rhai enghreifftiau lle nad yw mesurau lliniaru ar gael yn rhwydd, a bydd yn rhaid i ni wrthod caniatâd.

1.3. Mae'n rhaid i berchnogion glannau afonydd, datblygwyr, a'r holl unigolion eraill sy'n gwneud cais i gyflawni unrhyw waith sy'n effeithio ar gwrs dŵr, felly, gael caniatâd draenio tir oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru cyn i'r gwaith ddechrau.

1.4. Mae dau fath gwahanol o gategori cwrs dŵr – prif afon a chwrs dŵr cyffredin – ac mae gofynion deddfwriaethol gwahanol yn berthnasol i'r naill a'r llall.

## 2. Prif afonydd

2.1. Mae prif afon wedi'i diffinio'n gyfreithiol fel cwrs dŵr a ddangosir ar fap prif afon. Os yw lleoliad eich gweithgaredd arfaethedig ar brif afon, bydd angen i chi wneud cais am Drwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Diwygio) 2016.

**Nid yw'r nodiadau canllaw hyn yn cwmpasu gwaith sy'n effeithio ar brif afonydd, y gellir cael manylion amdanynt drwy ddilyn y ddolen ganlynol:**

http://www.naturalresources.wales/apply-for-a-permit/flood-risk-activities/?lang=cy

## 3. Cyrsiau dŵr cyffredin

3.1. Mae'r term cwrs dŵr "cyffredin" yn disgrifio'r holl gyrsiau dŵr, nentydd, ffosydd, pyllau ac ati eraill o fewn yr ardal ddraenio, y gallai rhai ohonynt fod yn isafonydd prif afonydd.

3.2. Mae cyrsiau dŵr cyffredin Ardaloedd Draenio Mewnol o dan reolaeth weithrediadol uniongyrchol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau caniataol (nid gorfodol) i gynnal gwaith cynnal a chadw a gwella ar yr holl gyrsiau dŵr cyffredin o fewn yr Ardaloedd Draenio Mewnol yng Nghymru.

3.3. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd bwerau rheoleiddiol o ran yr holl gyrsiau dŵr cyffredin o fewn ei ardaloedd draenio.

3.4. Yn ychwanegol at reoli dŵr ffo wyneb, mae'r is-ddeddfau draenio tir sy’n berthnasol i Ardal Draenio Mewnol Gwent, h.y. Ardaloedd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy, Cil-y-coed a Gwynllŵg, a Phowysland, yn ei wneud yn ofynnol i unigolion gael caniatâd ymlaen llaw ar gyfer yr holl weithgareddau mewn cyrsiau dŵr cyffredin a'u gorlifdiroedd, neu'n gyfagos iddynt, o fewn ffin yr Ardal Draenio Mewnol. Mae gweithgareddau o'r fath yn cynnwys (heb fod yn gyfyngedig iddynt) codi ffensys, adeiladu cwlfertau neu bontydd, adeiladu gollyngfeydd, gosod pibau neu geblau o dan wely cyrsiau dŵr cyffredin Ardaloedd Draenio Mewnol, plannu coed, cael gwared ar sbwriel, a chloddio a allai effeithio ar wely neu lannau'r cyrsiau dŵr hyn.

## 4. Ffioedd gwneud cais a thaliadau eraill

4.1. O dan Adran 23 (2) Deddf Draenio Tir 1991, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i awdurdodi i godi ffi ymgeisio yn ymwneud â chais am ganiatâd. Mae'r ffi yn daladwy er mwyn talu cost archwilio a chymeradwyo'r cynigion. Ar hyn o bryd, mae'r ffi yn £50.00 (wedi'i eithrio rhag TAW) ac mae'n daladwy o ran pob strwythur, sianel, pwll neu elfen arall ar wahân sy'n ffurfio'r prosiect.

4.2. Nid yw'r ffioedd yn cael eu had-dalu pe bai cais yn cael ei wrthod.

4.3. Dylai'r ffurflen gais am ganiatâd gael ei chwblhau, gan fanylu ar y nifer o strwythurau (e.e. cwlfertau, gollyngiadau, sianeli newydd neu sianeli wedi'u hailalinio, pyllau ac ati) sy'n ffurfio elfennau'r prosiect, fel y bo'n briodol. Rhoddir cyngor i ymgeiswyr gadarnhau'r ffi sy'n daladwy gyda Cyfoeth Naturiol Cymru cyn cyflwyno cais.

## 5. Sut i gael caniatâd

5.1. Dylai ffurflenni cais am ganiatâd sydd wedi’u cwblhau gael eu cyflwyno gyda'r ffi briodol a darluniadau, cyfrifiadau a dogfennau ategol eraill i Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar ôl derbyn cais cyflawn a ffi gywir, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddau fis i roi neu wrthod caniatâd. Nid yw'r cyfnod amser hwn yn dechrau tan fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon fod y cais, gan gynnwys unrhyw gynlluniau, darluniadau, asesiadau perygl llifogydd a chyfrifiadau dylunio gofynnol, yn gyflawn ymhob agwedd.

5.2. Gallai rhoi caniatâd draenio tir fod yn ddarostyngedig i amodau megis yr amser a'r dull y mae'r gwaith yn cael ei gyflawni, dulliau adeiladu, gwaith lliniaru amgylcheddol gofynnol, a'r darpariaethau i'w gwneud ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol i'r gwaith wedi'i gwblhau. Mae'n bwysig ein bod yn ymwybodol o bwy fydd yn gyfrifol am y gwaith sydd wedi'i gwmpasu o fewn y cais am ganiatâd.

5.3. Rhoddir cyngor i ymgeiswyr drafod eu cynigion gyda Cyfoeth Naturiol Cymru cyn cyflwyno cais, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o brif ofynion y gwaith a ragwelir.

5.4. Mae caniatâd a roddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei roi at ddibenion Deddf Draenio Tir 1991 ac is-ddeddfau Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig, ac ni ddylai'r ymgeisydd ystyried ei fod yn cymeradwyo dyluniad a chadernid unrhyw strwythur arfaethedig mewn unrhyw ffordd, ar wahân i ymwneud â'i effaith ar lifau a'i effeithiau ar y cwrs dŵr.

5.5. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am uniondeb strwythurol, sefydlogrwydd yn y dyfodol neu waith cynnal a chadw yn y dyfodol unrhyw waith y rhoddir caniatâd ar ei gyfer. Mae'r materion hyn yn gyfrifoldeb yr ymgeisydd a'i gynghorwyr technegol yn unig.

5.6. Cynghorir ymgeiswyr nad yw caniatâd draenio tir yn diystyru hawliau tirfeddiannydd cyfagos ac nid yw'n caniatáu ymyrraeth â chynefinoedd bywyd gwyllt sydd wedi'u gwarchod yn gyfreithiol.

5.7. Os yw Cyfoeth Naturiol Cymru, ddau fis ar ôl derbyn cais cyflawn a wnaed yn briodol, yn methu â hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o'i benderfyniad o ran y cais, yna tybir bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi caniatâd drwy ei ddiffyg.

## 6. Gofynion cyffredinol

6.1. Gallai unrhyw waith i addasu, sianelu neu lenwi unrhyw gyrsiau dŵr cyffredin o fewn Ardaloedd Draenio Mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru ofyn am ganiatâd draenio tir oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n debygol y bydd unrhyw sianelu yn cael ei wrthwynebu gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac ond yn cael ei ystyried am gyfnodau byr er mwyn hwyluso mynediad.

6.2. Dylai unrhyw waith a wneir fod yn hollol unol â'r cynigion a geir yn y darluniadau a gyflwynwyd. Gallai methu â gwneud hyn arwain at gamau gorfodi, gan orfodi partïon sy'n atebol i fynd i'r afael â gwaith adfer.

6.3. Mae'n rhaid gwneud darpariaeth(au) er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o lifogydd a allai ddigwydd yn ystod y cyfnod adeiladu, e.e. yn sgil glaw trwm / rhwystro cyrsiau dŵr ac ati.

6.4. Mae'n rhaid cymryd rhagofalon i osgoi llygru'r system draenio tir leol yn unol â chyngor y tîm Rheoli Adnoddau Naturiol lleol.

6.5. Mae'n rhaid cymryd rhagofalon i osgoi unrhyw effeithiau anffafriol a negyddol i'r buddiannau cadwraeth natur yn yr ardal (gan gynnwys ardaloedd Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) yn ôl gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 7. Gofynion yn Ardaloedd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy, Cil-y-coed a Gwynllŵg, a Phowysland

7.1. Mae angen gadael llain o dir yn wag rhwng brig y lan ac unrhyw adeilad neu rwystr, ar hyd dwy lan unrhyw gwrs dŵr yn Ardaloedd Draenio Mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn angenrheidiol fel bod modd cynnal a chadw unrhyw gwrs dŵr gyda pheiriannau trwm. Mae'r pellter yn cael ei nodi yn yr is-ddeddfau perthnasol.

7.2. Ni ddylai unrhyw waith beryglu sefydlogrwydd y lan bresennol / glannau presennol.

7.3. Rhaid cymryd rhagofalon fel y darperir yn ddigonol ar gyfer unrhyw ollyngiadau presennol o ddŵr wyneb sy’n llifo drwy'r ardal mewn unrhyw gynigion dylunio. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad oes unrhyw enghreifftiau o golli capasiti neu gysylltedd yn y cyrsiau dŵr a chaniatáu ar gyfer adeiladu lagwnau/tanciau storio fel y bo angen er mwyn cyfyngu ar ollwng dŵr wyneb i safleoedd maes glas neu i gyfradd dŵr ffo briodol arall.

7.4. Mae'n hanfodol fod unrhyw gwrs dŵr sy'n cysylltu'r gollwng dŵr wyneb mewn datblygiad â chwrs dŵr cyffredin yn Ardal Draenio Mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau nad oes llifogydd yn digwydd ar y tir mewn blynyddoedd i ddod.

7.5. Dylai trefniadau mynediad gael eu darparu i bersonél Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y cyfnod adeiladu er mwyn cyflawni gwaith cynnal a chadw ac i fynychu argyfyngau llifogydd ac ati.

7.6. Mae'n rhaid rhoi o leiaf wythnos o rybudd i Cyfoeth Naturiol Cymru cyn dechrau unrhyw waith sy'n effeithio ar gyrsiau dŵr yn Ardaloedd Draenio Mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru.

7.7. Mae cydymffurfiaeth â'r is-ddeddfau Ardaloedd Draenio Mewnol perthnasol (lle y bo'n berthnasol) yn hanfodol a bydd copïau o’r is-ddeddfau hyn ar gael ar gais.

## 8. Safonau diogelu – yn berthnasol i Ardaloedd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy, Cil-y-coed a Gwynllŵg, a Phowysland

8.1. Lle y bo'n briodol, a phan fo'n ofynnol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, dylai ceisiadau am ganiatâd draenio tir gynnwys cyfrifiadau hydrolegol a hydrolig.

8.2. Mae amcanion y weithdrefn hon fel a ganlyn:

- Ar gyfer dŵr ffo storm sydd yn cael ei ollwng o ddatblygiadau trefol, efelychu neu sicrhau lleihad o ran ymateb 'maes glas' y safle dros amrediad estynedig o debygolrwydd stormydd (cyfnodau dychweliad)
- Rheoli dŵr ffo ar y safle yn ystod digwyddiadau gormodiant.

8.3. Mae hyn yn ei wneud yn ofynnol i wneud yr isod:

- Rheoli'r gyfradd uchaf o ddŵr storm ffo o fewn ffin y safle
- Lleihau cyfaint y dŵr ffo (ar ôl y gwaith datblygu) pan fo'n ddichonadwy gwneud hynny

- Osgoi neu leihau'r llwyth llygredd i'r dŵr sy'n derbyn y dŵr storm ffo i lefel dderbyniol
- Asesu llifau/llwybrau dros y tir a storio dŵr llifogydd dros dro o fewn ffin y safle.

Ar gyfer amrediad y tebygolrwydd cyfradd llif blynyddol, **hyd at a chan gynnwys y digwyddiad tebygolrwydd blynyddol o 1%** (digwyddiad 1 mewn 100 mlynedd), ni fydd y gyfradd ddatblygedig o ddŵr ffo sy'n cael ei ollwng o'r safle i gwrs dŵr cyffredin Cyfoeth Naturiol Cymru yn fwy na'r gyfradd annatblygedig o ddŵr ffo ar gyfer yr un digwyddiad.

8.4. Dylid ystyried o leiaf tri thebygolrwydd digwyddiad blynyddol:
- Y tebygolrwydd blynyddol o 100% (digwyddiad 1 mewn 1 flwyddyn)
- Y tebygolrwydd blynyddol o 33.3% (digwyddiad 1 mewn 30 mlynedd)
- Y tebygolrwydd blynyddol o 1% (digwyddiad 1 mewn 100 mlynedd)

8.5. Dylai'r dadansoddiad o lifau dros y tir a'u llwybrau o fewn y safle datblygu ddefnyddio digwyddiadau glawiad o ddwysedd uchel a chyfnodau byr rhwng 15 a 60 munud o hyd, gyda chynyddrannau canolraddol priodol.

8.6. Bydd ystyriaeth o effaith bosibl newid hinsawdd yn y dyfodol yn cael ei gwneud drwy gynyddu'r dwysedd glawiad yn unol â'r canllawiau diweddaraf ar gyfer cyfrifo cyfeintiau storio. Ni fydd unrhyw lwfans ar gyfer newid hinsawdd yn angenrheidiol wrth gyfrifo'r gyfradd dŵr ffo ar gyfer safle 'maes glas'.

8.7. Mewn unrhyw achos, ni fydd lefel diogelwch y gwaith arfaethedig yn llai na'r lefel bresennol o amddiffynfeydd rhag llifogydd.

8.8. Cynghorir ymgeiswyr, pan fo cynigion yn cynnwys datblygiad newydd, y dylid cyflwyno, lle y bo'n briodol, copi o'r asesiad canlyniadau llifogydd a wnaed ar gyfer y safle, yn unol â Nodyn Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru (TAN) 15 – Datblygu a Pherygl Llifogydd (Gorffennaf 2004), gyda'r cais am ganiatâd draenio tir.

8.9. Cynghorir ymgeiswyr hefyd fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi ac yn eiriol dros y defnydd o systemau draenio cynaliadwy er mwyn lleihau effaith dŵr ffo wyneb ar yr amgylchedd. Dylai ceisiadau am ganiatâd draenio tir, felly, ddangos bod y technegau priodol wedi cael eu hystyried a'u gweithredu i sicrhau lleihau'r llif.

## 9. Effeithiau ar yr amgylchedd

9.1. Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd, felly mae'n rhaid i ni ystyried effeithiau amgylcheddol eich cynnig.

9.2. **Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr**
Mae'n bwysig fel rhan o'r broses ymgeisio fod eich cynigion yn cael eu hasesu er mwyn cadarnhau eu bod yn glynu at amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Gallai rhai gweithgareddau achosi i gorff dŵr ddirywio o ran

statws y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr neu atal ei amcanion ecolegol rhag cael eu diwallu.

Er mwyn cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, mae'n rhaid i ni sicrhau bod unrhyw gynllun neu weithgaredd newydd yn cael ei asesu ar gyfer cydymffurfiaeth. Os ydych yn ansicr, dylech gysylltu â ni i drafod unrhyw ofyniad i gyflawni asesiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr cyn i chi anfon eich cais atom.

Gweler ein dogfen 'Canllaw i'ch hawliau a'ch cyfrifoldebau fel perchennog glannau afon yng Nghymru' am fwy o wybodaeth am y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Gellir ei lawrlwytho ar y ddolen ganlynol: http://www.naturalresources.wales/flooding/managing-flood-risk/riverside-property-owners-know-your-rights-and-responsibilities/?lang=cy

9.3. **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

O dan y Rheoliadau Cynefinoedd Ewropeaidd a deddfwriaeth genedlaethol, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr nad yw unrhyw weithgareddau perygl llifogydd arfaethedig yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol negyddol ar unrhyw safle neu rywogaeth warchodedig, gan gynnwys:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)
- Safleoedd Ramsar rhestredig
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
- Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop ac yn genedlaethol

Gallai unrhyw waith arfaethedig a wneir gerllaw safle Ewropeaidd, neu'n gyfagos iddo, fod yn ddarostyngedig i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Gellir dod o hyd i wybodaeth ynglŷn â safleoedd a chynefinoedd gwarchodedig ar borth-daear Lle Llywodraeth Cymru ar http://lle.gov.wales/home?lang=cy a gwefan y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol ar www.nbn.org.uk.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth leol ar wefan eich Canolfan Cofnodion Lleol ar www.nbn.org.uk/Tools-Resources/BusinessResources/Local-Record-Centres/LRC-database.aspx.

9.4. **Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir)**

O dan y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir), mae'n rhaid i ni sicrhau nad yw unrhyw weithgarwch perygl llifogydd arfaethedig yn arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol. Gallai fod angen i chi gynnal asesiad o'r effeithiau amgylcheddol er mwyn ystyried effeithiau'r gweithgaredd ar yr amgylchedd. Dylech gysylltu â ni cyn i chi anfon eich cais atom er mwyn i ni allu eich cynghori ar hyn. Os na fyddwch yn gwneud hynny, gallai eich cais gael ei oedi.

Dylai eich asesiad amgylcheddol nodi ac ystyried yr holl effeithiau tebygol ar yr amgylchedd. Dylech ystyried effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gwaith ar safleoedd a nodweddion o ddiddordeb a rhywogaethau o werth arbennig. Dylai hefyd gynnwys unrhyw fesurau penodol rydych chi'n cynllunio eu gweithredu i leihau tarfu a lleihau unrhyw effeithiau digroeso tra bo'r gwaith yn parhau, yn ogystal ag amlinellu unrhyw gyfleoedd i wella

gwerth amgylcheddol y safle. Gallai hyn gynnwys creu nodweddion dŵr, plannu coed a llwyni a fyddai fel arfer yn tyfu ar y safle, darparu blychau nythu i adar, neu greu lleoedd cynaliadwy i fywyd gwyllt fyw ynddynt.

Os ydym wedi gofyn am asesiad amgylcheddol fel rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio, mae'n rhaid i chi ei anfon atom gyda'r holl ddogfennau ategol eraill sydd eu hangen arnom.

9.5. **Arall**

Os yw eich safle o fewn, gerllaw neu'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â safle cadwraeth natur, daearegol neu hanesyddol, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl i drafod eich cynigion cyn i chi anfon eich cais atom. Mae'n rhaid i ni ystyried effeithiau ceisiadau ar nodweddion amgylcheddol sensitif, gan gynnwys bywyd gwyllt a safleoedd daearegol lleol. Mae'n rhaid i ni hefyd ystyried henebion cofrestredig. Mae'n bosibl y bydd angen caniatâd oddi wrth Cadw ar gyfer gweithgareddau sy'n effeithio ar heneb gofrestredig.

Efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â'r sefydliadau hyn eich hun er mwyn casglu eu safbwyntiau ar eich cynnig.

## 10. Hawl i apelio

10.1. Os yw ymgeisydd yn credu bod caniatâd draenio tir wedi cael ei ddal yn ôl yn afresymol, neu fod yr amodau a osodir yn afresymol, mae gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio. Mae'n rhaid rhoi gwybod am hyn i'r peiriannydd yn y lle cyntaf. O dan Adran 23 y Ddeddf, os na ellir dod i gytundeb, bydd cymrodeddwr annibynnol yn cael ei benodi i benderfynu ar y mater.

## 11. Methu â sicrhau caniatâd draenio tir

11.1. Mae methu â sicrhau caniatâd draenio tir cyn cyflawni'r gwaith yn drosedd. O dan Adran 24 Deddf Draenio Tir 1991, os yw gwaith yn cael ei gyflawni yn groes i Adran 23, neu heb sicrhau caniatâd draenio tir ffurfiol yn gyntaf, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pŵer i gyflwyno hysbysiad gan ofyn am atal y niwsans o fewn amser penodol.

11.2. Gallai unrhyw unigolyn sy'n ymddwyn yn groes i Adran 24 Deddf Draenio Tir 1991, neu unrhyw is-ddeddfau Cyfoeth Naturiol Cymru, fod yn agored i ddirwy, ar ôl derbyn euogfarn, nad yw'n fwy na Lefel 5 ar y raddfa safonol. Gallai unrhyw fethiant pellach i gydymffurfio arwain at ddirwy ychwanegol nad yw'n fwy na £40 y diwrnod ar gyfer pob diwrnod y mae'r diffyg yn parhau.

11.3. O dan Adran 24 Deddf Draenio Tir 1991, gallai Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd waredu, addasu neu dynnu unrhyw waith anawdurdodedig, ac adfer y treuliau a achoswyd yn rhesymol yn ystod y broses, oddi wrth yr unigolyn sy'n gyfrifol.

## 12. Caniatadau a chydsyniadau eraill

12.1. Nid yw rhoi caniatâd draenio tir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhyddhau unigolyn sy'n cynnig cyflawni gwaith o'r angen i sicrhau trwyddedau, caniatadau neu gydsyniadau eraill o'r fath a allai fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

12.2. Os oes angen caniatâd neu gymeradwyaeth trydydd parti cyn bod yr ymgeisydd yn cyflawni unrhyw waith arfaethedig, mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth ddogfennol o'r caniatâd hwn neu'r gymeradwyaeth hon gyda'r cais.

## 13. Ble i anfon eich cais

13.1. E-bostiwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau i'r tîm perthnasol (mae'r manylion ar y ffurflen gais) ar gyfer lleoliad eich gweithgaredd arfaethedig.

## 14. Sut i gysylltu â ni

Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau'r ffurflen, cysylltwch â'r unigolyn a'i hanfonodd atoch neu cysylltwch â ni fel y dangosir isod.

Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8am tan 5pm)

E-bost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk / ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Gwefan: www.naturalresourceswales.gov.uk / www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ticiwch y blwch os ydych yn dymuno i'r holl gyfathrebu ynglŷn â'r cais hwn gael ei anfon dros e-bost.